



Cymru
National Day Nurseries Association

Arolwg Meithrinfeydd 2018

Cymru



www.ndna.org.uk

**Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar*

Crynodeb Gweithredol


Sefydlogi'r sector ar gyfer 2020

Mae ein harolwg blynyddol eleni'n dangos bod meithrinfeydd yn fwy optimistig ynglŷn â'r Cynnig Gofal Plant i Gymru nag ydynt wedi bod ers cryn dipyn o amser. Mae Llywodraeth Cymru'n gosod pwysigrwydd mawr ar y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan gydnabod y rôl hanfodol y maent yn eu chwarae ym mywydau teuluoedd yng Nghymru. Mae gofal plant fforddiadwy, sydd ar gael, ac yn hawdd mynd ati, yn rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu ac yn rhoi i deuluoedd gefnogaeth y mae mawr angen amdani gyda chostau gofal plant. Mae NDNA yn cefnogi cynllun uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i ehangu addysg blynyddoedd cynnar a ariennir gan y Llywodraeth, ond y mae, fodd bynnag, anawsterau i'w datrys.

Mae codiadau yn y Cyflog byw Cenedlaethol, ac anhawster i recriwtio a chadw staff, yn effeithio ar hyder busnes meithrinfeydd a dyma'r her fwyaf i'r sector. Cynhyrchu gwarged neu wneud elw oedd yr her ail fwyaf yn wynebu'r sector eleni. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r sicrwydd i'r sector y bydd y graddfeydd ariannu a roddir ganddynt i'r darparwyr yn cyd-fynd â chodiadau mewn cyflogau ynghyd â'r costau eraill sy'n cynyddu, megis biliau cyfleustodau, o flwyddyn i flwyddyn.

Mae arolwg eleni'n dangos bod y mwyafrif o'r meithrinfeydd a ymatebodd, sy'n derbyn ariannu addysg gynnar - y Cyfnod Sylfaen - yn dal i brofi diffygion ariannu. Dyma oedd yr her drydedd o ran maint i feithrinfeydd, yn bygwth cynaliadwyedd ac ansawdd ar draws y sector. Ac awdurdodau lleol yn capio graddfeydd ariannu isel, ynghyd â'r angen i gadw ffioedd yn fforddiadwy i rieni, mae meithrinfeydd preifat a gwirfoddol yn ei chael hi'n anodd.

**COSTAU
BUSNES
CYNYDDOL** **RHAID I'R
ARIANNU
GYFATEB**



**82% o feithrinfeydd
y Cyfnod Sylfaen
yn dweud nad yw'r
ariannu'n talu'u costau**

A chynllun rhyddhau ardrethi busnes Llywodraeth Cymru yn debygol o fod o gymorth i nifer o ddarparwyr, pery ardrethi busnes uchel yn gryn faich i'r mwyafrif o feithrinfeydd yn y sector. Galwodd nifer o feithrinfeydd am help ychwanegol gydag ardrethi busnes. Rhaid gwneud mwy i liniaru'r pwysau yma.


Pery'r diffyg mewn gwir ddewis rhieni o ran darparwyr gofal plant, gan na all nifer o feithrinfeydd preifat, a'r rhai yn y sector gwirfoddol, ddarparu lleoedd Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cael gwared â'r opsiwn o le gofal dydd llawn, hyblyg, mewn lleoliad unigol, i nifer fawr o deuluoedd ledled Cymru.

Tra bo'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn debygol o wneud gwir wahaniaeth i fywydau teuluoedd sy'n gweithio yn y genedl drwyddi draw, mae meithrinfeydd yn dal i wynebu heriau. Fel y dengys ein harolwg, mae angen gweithredu yn awr i fynd ynglŷn â'r materion hyn cyn 2020, fel arall ni fydd y rhaglen yn llwyddiant.

Mae NDNA yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chyfraddau ariannu isel gan awdurdodau lleol ledled Cymru ar gyfer rhaglen y Cyfnod Sylfaen fel y gall meithrinfeydd ateb eu costau heb godi'n sylweddol eu costau i rieni ar oriau na ariennir. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i gefnogi'r gweithlu, mae angen iddynt atgyfnerthu'u geiriau drwy roi i feithrinfeydd y sefydlogrwydd ariannol i allu buddsoddi mewn recriwtio a hyfforddi.

Wrth galon llwyddiant y mae datblygu partneriaethau cadarnhaol a chryf rhwng awdurdodau lleol a'r sector meithrinfeydd dydd. Bydd hyn yn greiddiol i nod Llywodraeth Cymru o gyflenwi lleoedd hyblyg a chynaliadwy gydol y flwyddyn i deuluoedd sy'n gweithio.

COSTAU 2018



CYFANSWM Y BAICH

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru: Meithrinfeydd yn teimlo'n fwy optimistaidd

Mae Cynnig Gofal Plant blaenllaw Llywodraeth Cymru, i ddarparu 30 awr o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi eu hariannu i bob plentyn tair a phedair blwydd oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, yn cael ei threialu ar hyn o bryd, i'w rhoi ar waith drwy ledled Cymru benbaladr erbyn 2020.

Yn ôl canlyniadau arolwg eleni, mae'r sector yn fwy optimistaidd, a'r sector yn dweud eu bod yn debygol, neu'n debygol iawn, o gynnig y cynllun. Mae'r mwyafrif (59%) o'r rhai sydd eisoes yn cyflenwi'r lleoedd 30 awr drwy gynlluniau pilot awdurdodau lleol yn adrodd bod y gyfradd ariannu o £4.50, ochr yn ochr â'r taliadau ychwanegol a ganiateir, yn unol â'r taliadau ar hyn o bryd. Mae cyfanswm o 41% fodd bynnag yn dweud bod y ffigur hwn yn llai na'u ffi arferol.

Mae diffygion yn addysg blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru a ariennir - Y Cyfnod Sylfaen - ond er hynny mae lleoedd yn dal ar gael, ac o ganlyniad, mae meithrinfeydd yn gorfod codi ffioedd rhieni er mwyn adennill eu colledion. Daeth cyflenwi cynnig Cynnig Sylfaen cynaliadwy yn her, trydedd o ran maint, i wynebu meithrinfeydd eleni, a'r mwyafrif o ddarparwyr yn dweud nad yw cyfraddau ariannu'n cyfateb â'u costau wrth gyflenwi'r rhagen.

Cred NDNA fod gan Lywodraeth Cymru'r cyfle perffaith i ddangos ei hymrwymiad hirdymor i addysg y blynyddoedd cynnar. Cyn 2020 dylai Llywodraeth; Cymru gymryd camau blaengar i sicrhau ariannu digonol fel y gall meithrinfeydd barhau i ddarparu addysg a gofal blynyddoedd cynnar sy'n gynaliadwy, yn hyblyg ac o ansawdd da i blant a rhieni.



87%

YN DEBYGOL NEU'N DEBYGOL IAWN O GYMRYD RHAN YN Y CYNNIG GOFAL PLANT



97%

YN MEDDWL Y DYLAI CYFRADD Y CYFNOD SYLFAEN FOD YR UN FATH Â'R CYNNIG GOFAL PLANT



51%

O FEITHRINFEYDD YN GOFIDIO NA FYDD YR ARIANNU'N TALU'U COSTAU YN Y DYFODOL

41% O FEITHRINFEYDD WEDI DWEUD BOD Y GYFRADD ARIANNU O £4.50 YN IS NA'U FFI ARFEROL

Y tri phrif bryder

Gwnaethom ofyn i feithrinfeydd beth oedd eu heriau mwyaf yn 2018:


1. CODIADAU YNG NGHYFLOGAU STAFF

Am y tro cyntaf, mae cyflogau uwch i staff, a yrrir gan y codiadau yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol, yn cael yr effaith fwyaf yng Nghymru ar allu meithrinfeydd i weithredu'n gynaliadwy.



2. GWNEUD ELW NEU WARGED

Mae cyfraddau ariannu isel Llywodraeth Cymru, ar y cyd â chostau staff uwch, yn effeithio ar hyder busnesau. O'r tymor canolig i'r tymor hir, mae hyn yn risg i ansawdd a chynaliadwyedd meithrinfeydd.



3. CYFLENWI CYNNIG CYFNOD SYLFAEN CYNALIADWY

Daeth hyn yn un o'r heriau sy'n gwasgu fwyaf ar y sector o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae diffygion mewn ariannu fesul awr, a'r her o gadw ffioedd yn fforddiadwy i rieni, yn risg i gynaliadwyedd busnesau meithrinfeydd. Mae hyn hefyd yn capio tâl y gweithlu, gan gyfrannu at broblemau recriwtio a chadw yn y sector.



Argymhellion NDNA

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn a diogelu darpariaeth gofal plant sydd o ansawdd ac yn gynaliadwy, mae NDNA yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

CYNYDDU'R GYFRADD ARIANNU FESUL AWR BRESENNOL I'R CYFNOD SYLFAEN, GAN SICRHOU EI BOD YN UNOL Â'R CYNNIG GOFAL PLANT PRESENNOL I GYMRU.

Dim ond â'r lefelau ariannu priodol y gellir cyflawni addysg gynnar a gofal plant cynaliadwy, hyblyg ac estynedig wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd sicrhau'r un gyfradd i'r ddwy raglen yn caniatáu parhad, yn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr ac yn rhoi i feithrinfeydd ariannu digonol i recriwtio a chadw gweithlu o safon uchel. Rhaid i'r raddfa gynyddu gyda chwyddiant er mwyn cefnogi'r sector wrth symud ymlaen, gan roi hwb i hyder er mwyn helpu i gyflenwi 30 awr lawn y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn 2020 am 48 wythnos o'r flwyddyn, gan gyfateb â chostau. Rhaid i'r holl ariannu gofal-plant gynyddu o flwyddyn i flwyddyn i gyfateb â'r costau cyflenwi cynyddol.

RHOI I BOB MEITHRINFA DDYDD RYDDHAD O 100% AR ARDRETHI

Mae NDNA yn croesawu cynllun rhyddhau ardrethi busnesau bach Llywodraeth Cymru sy'n debygol o fod o fudd i nifer o feithrinfeydd ledled Cymru. Er bod hyn yn gam yn y cyfeiriad iawn, awgrymir gan ein hymchwil y gall dros bedair mewn deg meithrinfa breifat fetu'r cyfle. I liniaru'r pwysau ychwanegol ar y sector, hoffem weld cymorth pellach ar gael i'r rhai sydd y tu allan i'r trothwy ardrethi, gan atgyfnerthu cynaliadwyedd meithrinfeydd gofal dydd llawn yn y farchnad ofal-plant heriol hon.



CYNYDDU BUDDSODDI YN Y SECTOR I GEFNOGI HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD STAFF MEITHRINFYDD

I gyfateb â Chynllun Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus gweithlu'r blynyddoedd cynnar.



DYLAI LLYWODRAETH CYMRU GYFLWYNO 'PASBORT GOFAL PLANT'

Cred NDNA bod angen ailwampio'n llwyr y system o ariannu gofal plant ac addysg gynnar. Byddai Pasbort Gofal Plant yn gyfrif unigol, yn nwylo rhieni, a fydd yn dwyn at ei gilydd yr holl gynlluniau sy'n ariannu gofal plant yn cynnwys: hawliau blynyddoedd cynnar a ariennir, Gofal Plant Di-dreth, Talebau Gofal Plant a Chredydau Treth/ Credyd Cynhwysol. Mae system weinyddol gymhleth, ynghyd â ffrydiau ariannu gwahanol a chymhleth, a'r gwaith papur sy'n cynyddu'n gyson, yn cymryd pobl broffesiynol, gymwysedig oddi wrth eu priod waith. Mae NDNA yn croesawu datganiadau Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod yr achos dros symleiddio'r broses ariannu. Dylai Gweinidogion gael eu calonogi gan gasgliadau ein harolwg a rhoi cynllun yn ei le i gyflwyno Pasbort Gofal Plant.



Materion allweddol - Ariannu

Plant tair a phedair blwydd oed

Mae dros hanner (58% of feithrinfeydd yn cael eu hariannu gan eu hawdurdod lleol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Er hynny, adroddodd dros bedair allan o bump o'r meithrinfeydd a ymatebodd (82%) nad yw'r gyfradd yr awr y maent yn ei gael o'r awdurdod lleol yn ateb eu costau am gyflenwi addysg y blynyddoedd cynnar. Y gyfradd yr awr a dderbynnir gan y meithrinfeydd a ymatebodd yw £3.08, sef ffigur llai na'r £3.15 am 2017, a'r isaf o gryn dipyn yn y Deyrnas Unedig yn y grŵp oed yma.


Mae hwn yn fater sy'n gwasgu ar y sector. Dywedodd dros ddwy ran o bump (42%) o ymatebwyr fod cyflenwi cynnig Cyfnod Sylfaen cynaliadwy yn her fawr neu fawr iawn, i'w busnes.

58% 

YN DERBYN ARIANNU GAN AWDURDODAU LLEOL AR GYFER Y CYFNOD SYLFAEN

NID YW'R GYFRADD YR AWR YN TALU COSTAU **82%**

CYFRADD GYFARTALOG YR AWR



Plant dwy flwydd oed

Dim ond chwarter (25%) o'r rhai a ymatebodd sy'n derbyn arian gan eu hawdurdod lleol i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg i blant dwy flwydd oed.

Er mai dim ond nifer bychan o ymatebwyr arolwg eleni sy'n cyflenwi 'Dechrau'n Deg' ac sydd, felly, mewn sefyllfa i wneud sylw, dywedodd meithrinfeydd wrthym fod y graddfeydd ariannu wedi gwella. Adroddodd meithrinfeydd a oedd yn cael eu hariannu gan eu hawdurdod lleol bod cyfarataledd y graddfeydd yn £5.60. Fodd bynnag, mae graddfeydd yn amrywio yn ddibynnol ar bob awdurdod lleol a meithrinfa unigol.

1 MEWN 4 

YN DERBYN ARIANNU GAN AWDURDODAU LLEOL AR GYFER DECHRAU'N DEG



Cynlluniau ar gyfer y cynnig 30 awr

Eleni roedd yr ymatebwyr yn arbennig o optimistaidd ynglŷn â chyflenwi Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru i rieni sy'n gweithio.

Dywedodd y mwyafrif llethol (87%) o feithrinfeydd wrthym eu bod yn debygol, neu'n debygol iawn, o gynnis lleoedd, a dim ond 1% yn adrodd eu bod yn annhebygol o gymryd rhan. Mae hwn yn symudiad clir i ffwrdd o ganlyniadau'r llynedd, pan roedd y sector yn fwy rhanedig.

Ar yr un pryd, mae dros hanner y sector (51%) yn bryderus na fydd y graddfeydd ariannu presennol yn ateb costau eu busnes yn y dyfodol, gan eu bod yn cynyddu'n barhaus.


Mae traean o'n hymatebwyr ar hyn o bryd yn cyflenwi'r Cynnig Gofal Plant sy'n cael ei dreialu. O'r gyfran hon, dywedodd pedair o bob pum meithrinfa fod y gyfradd fesul awr o £4.50 y plentyn, ochr yn ochr â'r opsiwn o godi £7.50 y diwrnod am eitemau ychwanegol, tua'r un fath, neu'n unol â'r costau presennol. Ymhellach, dywedodd bron chwarter (24%) o ymatebwyr fod cyflenwi'r Cynnig gofal Plant wedi helpu o ran cynaliadwyedd y busnes.

O ystyried yr agwedd gymharol gadarnhaol yn y sector, cred y mwyafrif llethol (97%) y dylai cyfraddau cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant fod yr un fath. Byddai hyn yn galluogi pob meithrinfa i gadw'r gyfradd lawn fesul awr, ac yn sicrhau parhad yn yr ariannu. Byddai bod â dwy gyfradd wahanol, un i addysg blynyddoedd cynnar yn y Cyfnod Sylfaen ac un i'r Cynnig Gofal Plant, yn gosod baich gweinyddol diangen ar ddarparwyr.



87% YN DEBYGOL NEU'N DEBYGOL IAWN O GYNNIG LLEOEDD

DIM OND 1% YN ANNHEBYGOL O YMUNO



YN GOFIDIO NA FYDD CYFRADDAU ARIANNU'N CYFATEB Â'U COSTAU BUSNES YN Y DYFODOL

97%

YN MEDDWL Y DYLAU CYFRADD Y CYFNOD SYLFAEN FOD YR UN FATH Â'R CYNNIG GOFAL PLANT

Materion allweddol - Ariannu


Ffioedd a thaliadau

Mae llai o feithrinfeydd yn bwriadu cynyddu eu ffioedd eleni (72% o'i gymharu â 77% yn 2017) ac mae'n debygol y bydd y codiadau mewn ffioedd yn llai nag mewn blynyddoedd



Y GANRAN O FEITHRINFYDD SY'N BWRIADU CYNYDDU EU FFIODD


diweddar. Mae meithrinfeydd sy'n bwriadu cynyddu eu ffioedd yn rhagweld codiadau o 3.6% o'i gymharu â'r 4.3% a adroddwyd yn arolwg y llynedd, er mwyn cadw ffioedd yn fforddiadwy i rieni.



Beichiau busnes

Yn dilyn gwaith NDNA yn 2017-18 yn dylanwadu ac yn eiriol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun rhyddhau ardrethi i fusnesau bychain. Cafodd hyn dderbyniad cadarnhaol gan y sector. Dywedodd bron hanner (44%) o'r ymatebwyr y byddai eu busnesau'n elwa o'r rhyddhad ardrethi ychwanegol. O'r nifer hwn, dywedodd 40% y byddai o gymorth iddynt gynnal busnes iach. Fodd bynnag, nid yw'n debygol y bydd dros bum ran (23%) o'r ymatebwyr yn elwa o hyn, ac mae chwarter ohonynt yn ansicr.

Dywedodd meithrinfeydd mai eu her ail fwyaf yn 2018 oedd gwneud elw neu warged. A hyn mewn golwg, byddai cael eu heithrio'n llwyr o gyfraddau busnes yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w hyder busnes, ac mae hyn yn flaenoriaeth i'r sector.



Materion allweddol - Y Gweithlu


Codiadau mewn cyflog

Mae codiadau yng nghyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw cenedlaethol yn dal i roi pwysau ar gostau staffio meithrinfeydd. Mewn gwirionedd, nodwyd mai codiadau mewn cyflogau staff oedd y brif her i feithrinfeydd yng Nghymru eleni, a chyfanswm cynnydd cyfartalog o 6% yng nghostau'r gyflogres yn cael ei adrodd.

Mae recriwtio staff newydd a chadw staff presennol hefyd yn broblem i ddarparwyr, a 40% o feithrinfeydd yn dweud i hyn fod yn heriol neu'n heriol iawn. Mae ariannu isel, ynghyd â'r her o gadw ffioedd yn fforddiadwy i rieni, wedi capio tâl yr holl weithlu, gan gyfrannu at argyfwng recriwtio a chadw yn y sector. Hefyd, mae meithrinfeydd yn ei chael hi'n anodd fforddio talu am hyfforddi staff, a thros hanner (56%) yn adrodd ar bryderon.

6% ↑↑↑↑↑

CYNNYDD
CYFARTALOG MEWN
COSTAU CYFLOGRES



40% YN CAEL RECRIWTIO
A CHADW STAFF YN HERIOL
NEU'N HERIOL IAWN

Beth sydd ei angen ar feithrinfeydd?

Argymhellion allweddol

Ein prif argymhellion i Lywodraeth Cymru yw:

1. Cynyddu'r gyfradd ariannu fesul awr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gan sicrhau ei fod yn unol â'r Cynnig Gofal Plant i Gymru.
2. Rhoi i bob meithrinfa ddydd ryddhad o 100% mewn ardrethi busnes
3. Cynyddu buddsoddiad yn y sector i gefnogi hyfforddiant a datblygiad staff meithrinfeydd.
4. Y dylai Cymru gyflwyno 'Pasbort Gofal Plant' i gyfuno'r holl ffrydiau ariannu a'i gwneud yn haws i rieni eu cyrchu.
5. Sicrhau'r sector y bydd y cyfraddau ariannu a roddir i ddarparwyr yn unol â chostau busnes cynyddol.

Manylion yr arolwg

Cynhaliwyd yr arolwg ar lein ym Mawrth ac Ebrill 2018. Derbyniodd yr arolwg 115 o ymatebion, sy'n gyfystyr â 24% o'r holl leoliadau gofal dydd llawn yng Nghymru. Roedd 80% o'r ymatebwyr yn feithrinfeydd safle-sengl a 20% yn grwpiau o feithrinfeydd o ddau safle neu fwy. Derbyniwyd ymatebion gan feithrinfeydd, yn cwmpasu pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, y mwyafrif ohonynt (92%) o feithrinfeydd y sector preifat, ac 8% o'r sector nid-er-elw. Noder: mae'n bosibl na fydd y ffigurau yn yr adroddiad drwyddo draw yn rhoi cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.



Cymru
National Day Nurseries Association

Pwy ydym ni

Mae NDNA yn elusen genedlaethol sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws Lloegr, Yr Alban a Chymru, gan roi iddynt wybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth, i'w galluogi i roi'r gofal gorau posibl i blant ifanc. NDNA yw llais y sector, sydd â chyfanswm o 25,500 o feithrinfeydd ac yn cyflogi 270,600 o bobl - rhan annatod o fywydau 1.2 miliwn o blant a'u teuluoedd.

National Day Nurseries Association

National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ

01484 407070

info@ndna.org.uk

@NDNATalk

/ndna.org.uk

National Day Nurseries Association

NDNA Scotland

The Mansfield Traquair Centre, 15 Mansfield Place, Edinburgh, EH3 6BB

01315 166967

scotland@ndna.org.uk

NDNA Cymru

Swyddfa 2, Crown House, 11 Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AE

01824 707823

wales@ndna.org.uk

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yn Lloegr. Rhif Cwmni: 3738616. Rhif TAW. 123353839. Mae NDNA yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1078275) ac yn yr Alban (SCO40610). Hawlfraint ©NDNA™ Cedwir pob hawl 2018. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2018

www.ndna.org.uk

***Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**